

## Chronic Health Conditions



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

### Disability Service

- About the Disability Service
- Disabled Students Allowances (DSAs)
- Support Workers
- Equipment
- Examination arrangements
- Personal Learning Support Plans

We are on the First Floor, Neuadd Rathbone,  
College Road, Bangor, LL57 2DF

To make an appointment to see an adviser:

**Tel:** 01248 382032

**E-mail:** [disabilityservice@bangor.ac.uk](mailto:disabilityservice@bangor.ac.uk)

[www.bangor.ac.uk/student-services/disability](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability)

**This leaflet is available in  
alternative formats**

#### What the Disability Service can do for you:

- Offer personal and academic support and guidance. We can advise on strategies to make studying and everyday tasks more manageable.
- Provide Notetakers and Practical Assistants.
- Liaise on your behalf, with members of staff in your department.
- Arrange for extended library loans and book collection service.
- Arrange for you to have a permit to park in university car parks or assist you claim for help with taxi fares.
- Arrange for Personal Emergency Escape Plans.
- Keep in touch through meetings, newsletters, e-mail and phone.

Chronic health conditions can be as limiting as more visible impairments. We have supported students with a wide variety of health conditions, including: diabetes; MS; chronic fatigue syndrome with the aim of reducing barriers to study and helping achieve learning goals.

#### Hills and Historic Buildings

Bangor University is sited on a hill and it has many old buildings which are being improved, but some do not have particularly easy access. We are working to change this but in the meantime we have to work with what we have available. Wherever necessary, we will do our best to arrange for classes to be held in accessible rooms but talk to us well in advance so that appropriate arrangements can be made.

For information on access to buildings see 'Getting Around Bangor' at:  
[www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/AccessandEgressStudentwithpics.pdf](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/AccessandEgressStudentwithpics.pdf)

#### Disabled Students Allowance (DSAs)

Where eligible, we can help students apply for DSA funding. This can be a lengthy process and we advise you contact us as soon as possible to ensure timely arrangements.

#### Support Workers

A notetaker can take main points in lectures. We also provide support help students to get around the campus, as well as provide assistance in libraries and laboratories or on fieldtrips.

#### Equipment

We can arrange for equipment, such as: an adjustable chair; a computer with voice-activated software; ergonomic keyboard and mouse. We also have a small loan stock of equipment for students.

#### Examinations

Students may opt to sit their examinations in a separate room or the Sick Bay. Arrangements may also be made for examinations, for example, use of a computer, extra time, or rest breaks.

#### Personal Learning Support Plans

Personal Learning Support Plans are drawn up for individual students setting out arrangements and strategies that are required.



The Frank Buttle Trust

Gwybodaeth i fyfyrwyr sydd â

## Chyflwr Iechyd Cronig



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

### Gwasanaeth Anabledd

- Gwybodaeth am y Gwasanaeth Anabledd
- Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (LMA)
- Gweithwyr Cefnogi
- Offer
- Trefniadau arholiadau
- Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol

Rydym ar y Llawr Cyntaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg, Bangor, LL57 2DF

Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad i weld cynghorwr:

**Ffôn:** 01248 382032

**E-bost:** [gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk](mailto:gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk)

[www.bangor.ac.uk/student-services/disability](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability)

**Mae'r daflen ar gael mewn gwahanol fformatau**

### Beth all y Gwasanaeth Anabledd ei wneud i chi?

- Rhoi cefnogaeth a chyfarwyddyd personol ac academaidd. Gallwn roi cyngor ar strategaethau er mwyn hwyluso astudio a thasgau bob dydd.
- Darparu rhywun i gymryd nodiadau a Chynorthwyr Ymarferol.
- Cysylltu ar eich rhan gydag aelodau staff yn eich adran.
- Trefnu benthyciadau estynedig gan y llyfrgell a gwasanaeth nôl llyfrau.
- Trefnu i chi gael trwydded fel y gellwch barcio ym meysydd parcio'r Brifysgol neu eich helpu i hawlio cymorth gyda chostau taci.
- Trefnu Cynlluniau Personol Dianc mewn Argyfwng.
- Cadw mewn cysylltiad drwy gyfarfodydd, newyddlenni, e-bost a ffôn.

Gallai cyflwr iechyd cronig fod mor rhwystrol ag amhariadau mwy gweledol. Rydym wedi cefnogi myfyrwyr gydag amrywiaeth eang o gyflyrau iechyd, yn cynnwys: diabetes; MS; syndrom blinder cronig, gyda'r nod o leihau rhwystrau i astudio a helpu i gyflawni amcanion dysgu.

### Bryniau ac Adeiladau Hanesyddol

Saif Prifysgol Bangor ar fryn, ac mae ganddi lawer o hen adeiladau sy'n cael eu gwella. Fodd bynnag, nid oes mynediad hwylus ym mhob un ohonynt. Rydym wrthi'n gweithio i newid hyn ond, yn y cyfamser, mae'n rhaid i ni weithio â'r hyn sydd ar gael. Lle bynnag bo angen, byddwn yn gwneud ein gorau i

drefnu bod dosbarthiadau'n cael eu cynnal mewn ystafelloedd sy'n hwylus, ond siaradwch â ni yn ddigon buan ymlaen llaw, fel y gellir gwneud addasiadau rhesymol. Am fwy o wybodaeth am fynediad i adeiladau, edrychwch ar 'Teithio o amgylch Bangor' yn: [www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/AccessandEgressStudentwithpics.pdf](http://www.bangor.ac.uk/student-services/disability/documents/AccessandEgressStudentwithpics.pdf)

### Lwfansau i Fyfirwyr Anabl (LMA)

Lle bo'n gymwys, gallwn helpu myfyrwyr i wneud cais am gyllid LMA. Gall hyn fod yn broses hir ac rydym yn eich cynghori i gysylltu â ni cyn gynted â phosib i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud mewn pryd.

### Gweithwyr Cefnogi

Gall ysgrifennwr nodiadau gofnodi'r prif bwytiau mewn darlithoedd. Rydym hefyd yn rhoi cymorth i fyfyrwyr symud o amgylch y campws, ac yn rhoi cymorth hefyd mewn llyfrgelloedd a labordai neu ar deithiau maes.

### Offer

Gallwn drefnu offer fel: cadair y gellir ei haddasu; cyfrifiadur gyda meddalwedd sy'n gweithio â'r llais; byseddell a llygoden ergonomig. Mae gennym hefyd stoc fechan o offer i'w fenthyca i fyfyrwyr.

### Arholiadau

Gall myfyrwyr ddewis sefyll eu harholiadau mewn ystafell ar wahân neu yn Ystafell y Cleifion. Gellir gwneud trefniadau hefyd ar gyfer arholiadau, er enghraifft, defnyddio cyfrifiadur, amser ychwanegol neu seibiant.

### Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol

Rydym yn llunio Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol ar gyfer myfyrwyr unigol i amlinellu'r trefniadau a'r strategaethau sydd eu hangen.



The Frank Bottle Trust